

Dyn Dewr

Cysyniadau: Dewrder, amynedd, dyfalbarhad, meddwl am eraill, gorchest, hunan aberth.

Amcan: Dangos gwrhydri a dewrder a hynny er mwyn eraill.

Cyfarpar: Llun o fad achub, bathodyn RNLI.

Cyflwyniad:

● Dangos bathodyn y Badau Achub – RNLI, Royal National Lifeboat Institution yn Saesneg neu yn Gymraeg Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub.

● Mae 25 o orsafoedd Badau Achub yng Nghymru a 237 ym Mhrydain. Pa un ydi'r agosaf at eich ysgol chi?

● Oes 'na rywun wedi bod ar fwrdd bad achub? Neu oes 'na rywun wedi cael ei achub gan griw bad achub?

● Dyma stori am lywiwr bad achub Moelfre, Ynys Môn. Mae Richard Evans, neu Dic i'w ffrindiau, wedi marw er 2001. Yn ystod ei gyfnod fel llywiwr fe gafodd ddwy fedal aur am ei ddewrder. Dyma'r hanes sut y cafodd ei fedal aur gyntaf yn 1959.

Galwodd Nansi ar ei gŵr, 'Dic, mae'r ffôn yn canu.'

Cododd yntau'n syth o'r gadair ac ateb yr alwad. Roedd llong oedd ar ei ffordd o Fanceinion i Gasnewydd wedi'i dal mewn storm enbyd ar y creigiau gerllaw pentref bach Moelfre ar ochr ddwyreiniol Ynys Môn.

Doedd dim i'w wneud ond ffarwelio â Nansi ei wraig a ffwrdd â fo nerth ei draed, taith chwarter awr i lawr i'r cwt bad achub.

Ond y diwrnod hwnnw gan fod y gwynt mor gryf, yn chwythu o'r de-ddwyrain, mi gymerodd Dic bron i bum munud ar hugain i gyrraedd y cwt. Roedd Ifan y mecanic, Murley Francis yr ail lywiwr, Huw Owen, un o'r criw, a Huw Jones yno'n barod. Ond doedd Huw Jones ddim yn perthyn i'r criw. Yno roedd yn ymochel rhag y tywydd. Ond mynnodd Dic ei fod yn rhoi lifrai un o'r criw amdano a dod yn un o'r tîm y munud hwnnw.

Lluchiai'r tonnau i fyny ochrau'r cwt. Chwyrnellai'r gwynt a rhuai'r môr. Nid diwrnod i fod allan ar y môr, bid siŵr. Ond roedd yn rhaid mynd allan i ryferthwy'r storm. Ar ddiwrnod tawel byddai'r bad achub wedi cyrraedd y creigiau mewn llai na deng munud. Ond y diwrnod hwnnw roedd grym y môr yn eu hatal.

Ar ôl ymlafnio am gryn amser fe welodd un o'r criw sgerbwd yr Hindlea (dyna enw'r llong) ar y creigiau.

'Dacw hi,' meddai Huw Owen. Yr unig un glywodd y geiriau oedd Dic a llywiodd y bad achub tuag ati. Dyma'r adeg roedd Dic yn gweddio, 'O Arglwydd arwain fi.' Yr un oedd ei weddi bob tro.

Gwyddai Dic a'i griw fod wyth ar fwrdd yr Hindlea ac roedd o'n benderfynol ei fod yn mynd i achub y cwbl. Roedd grym y tonnau yn hyrddio'r bad achub i fyny i'r awyr ac ar un adeg roedd ar yr un lefel â dec yr Hindlea. Deg o weithiau y llwyddodd y bad achub i fynd yn gyfochrog â'r Hindlea a dim ond tair gwaith y daeth yn ôl yn waglaw. Roedd saith wedi'u hachub. Ond roedd un ar ôl. Gwyddai Dic na allai adael yr unigolyn i gael ei sgubo drosodd i'r môr. Un cynnig eto. Llwyddodd Ifan Owen, y mecanic, i hyrddio peiriant y bad achub i'r eithaf posibl. Cododd y bad achub o'r dyfroedd gwyllt a phan laniodd yn ôl hyrddiwyd Dic ar wastad ei gefn ond llwyddodd i godi ar ei draed a chael gafael yn y llyw. Doedd o ddim wedi anafu ei hun ond fe'i syfrdanwyd pan welodd fod y bad achub wedi glanio ar ddec yr Hindlea. Ai dyma'r diwedd? Llifodd lluniau dychmygol o'i wraig a'i dri bachgen drosto. Ai'r bore hwnnw oedd y tro olaf iddo'u gweld? Ond doedd o ddim eisiau marw a'u gadael. Yn wyrthiol, hyrddiodd ton arall y bad achub yn ôl ar donnau'r môr a bu'r ddau Huw yn ddigon ffodus i stryglo i gael yr olaf o griw yr Hindlea ar fwrdd y bad achub. Cyflawnwyd y dasg! Roedd criw yr Hindlea yn ddiogel ar fwrdd y bad achub.

Trafodaeth bellach:

- Sut ddyd oedd Richard (Dic) Evans y llywiwr?
- Ai gwaith un dyn oedd hyn ynteu tîm o bobl?
- Sut oedd criw yr Hindlea yn teimlo (a) pan aeth y llong ar y creigiau (b) pan ddaeth y bad achub heibio?

Emyn: Mi benderfynais i ddilyn Iesu: Canu Clod 277

Dyfyniad o'r Beibl:

Mae Llyfr y Salmau yn cyfeirio at storm debyg:

I fyny i'r awyr, ac i lawr i'r dyfnder â nhw!

Roedd ganddyn nhw ofn am eu bywydau.

Roedd y cwch yn siglo a gwegian fel rhywun wedi meddwi.

Salm 107:26-27 beibl.net

Munud i feddwl:

Wnaiff yr hwn sydd ofn mentro byth gyflawni dim yn ystod ei fywyd.

Muhammed Ali

Myfyrdod/Gweddi:

Diolch, O Dduw, am bobl ddewr sy'n barod i fentro er mwyn eraill.

Diolch. Amen.